# Cymunedau cydnerth: wynebu’r her o fod ar yr ymylon – digwyddiad lansio

Cyflwyno dau fynegai cyflenwol ar wahân – Mynegai Asedau Cymunedol Cymru (WCAI) a Mynegai Cydnerthu Cymunedol Cymru (WCRI)






BCT
Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Gwybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau


- Fel rhan o’r Rhaglen Buddsoddi’n Lleol, mae’r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn gweithio gyda chymunedau gwledig sydd â lefelau isel o asedau cymunedol.
- Profiadau’r grwpiau sy’n rhan o’r Cynllun Buddsoddi’n Lleol yw’r rheswm pam ei bod yn bwysig sicrhau bod pobl yn cael mynediad at fannau a chyfleusterau lleol sy’n cynnig cymorth a chyfleoedd.
- Mae gwaith wedi cael ei wneud er mwyn mynd i’r afael â’r heriau a ddaw yn sgil cyni parhaus, Covid-19, a’r argyfwng costau byw.
- Mae'r ymchwil yn adeiladu ar y profiadau hyn, yn ogystal ag ar yr ymdrechion a wnaed yn y gorffennol i fapio asedau cymunedol yng Nghymru, a’r ymchwil ‘*Left Behind: Understanding Communities on the Edge.*’







# Beth ydyn ni’n ei gyhoeddi?



Dau fynegai a chyfres o adnoddau, gan gynnwys y set ddata gyflawn ac argymhellion ar gyfer y rhai sy’n gwneud penderfyniadau







Mynegai Cydnerthedd Cymunedol ac ‘ardaloedd llai cydnerth’ yng Nghymrud

Adroddiad technegol

OCSI

## Indecs Asedau Cymunedol Cymru

**Darllenwch ein hymchwil asedau cymunedol arloesol sy’n dangos anghydraddoldeb parhaus sy’n seiliedig ar leoedd ledled Cymru a’r hyn ddylai ddigwydd nesaf.**

I weld yr adroddiad llawn (Saesneg), please click here.

I weld yr adroddiad llawn (Cymraeg), cliciwch yma..

I weld y grynodeb weithredol (Saesneg), cliciwch yma.

I weld y grynodeb weithredol (Cymraeg), cliciwch yma.

# Methodoleg

- Seiliedig ar asedau o’r cam dylunio – mesur cryfderau cymunedau a phresenoldeb seilwaith cymunedol, yn hytrach na’r hyn sydd ar goll.
- Defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol fel y mesur daearyddol.
- Yn dwyn ynghyd 20 o ddangosyddion gwahanol o dan 3 phennawd newydd.
- Mae’n sgorio ac yn rhestru pob un o’r 410* o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yng Nghymru.
- Mae safle 1 yn golygu nad oes gan yr ardal lawer o seilwaith cymunedol a’i bod yn llai cydnerth, tra bod safle 410 yn golygu bod gan yr ardal well ddarpariaeth o ran seilwaith cymunedol a’i bod yn fwy cydnerth

* mae’r mynegeion yn dibynnu ar ddata cyfrifiad 2011, lle’r oedd 410 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yng Nghymru. Yng nghyfrifiad 2021, roedd nifer yr ardaloedd hyn wedi gostwng i 408.

BCT Building Communities Trust Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Asedau Dinesig



- Clybiau ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Parciau cyhoeddus
- Canolfannau Cymunedol
- Pyllau nofio
- Neuaddau pentref
- Asedau sy'n eiddo i'r gymuned

Yn mesur presenoldeb asedau cymunedol, dinesig, addysgol a diwylliannol allweddol yn yr ardal.

Cyfleusterau sy'n darparu pethau i'w gwneud a mannau cyfarfod, yn aml am ddim neu heb fawr o gost (i'r defnyddiwr terfynol), sy'n bwysig o ran pa mor gadarnhaol mae cymuned yn teimlo am yr ardal leol.

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Cysylltioldeb




- Gwasanaethau iechyd
- Cysylltedd digidol – cyflymder lanlwytho a lawrlwytho
- Cysylltedd cymdeithasol
- Cyfraddau unigrwydd
- Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus
- Mynediad at drafnidiaeth breifat
- Cryfder y farchnad swyddi leol

Yn mesur cysylltedd, o safbwynt ffisegol a pha mor hawdd yw cael gafael ar wasanaethau allweddol.

A oes mynediad at wasanaethau allweddol, megis gwasanaethau iechyd, o fewn pellter teithio rhesymol? A yw trafnidiaeth gyhoeddus a'r isadeiledd digidol yn dda? Pa mor gryf yw'r farchnad swyddi leol?

BCT Building Communities Trust Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Cymuned weithgar ac ymgysylltiol



Cyfraddau pleidleisio pleidleiswyr

Cyfraddau gwirfoddoli

Canfyddiadau o berthnasoedd cymdeithasol

Nifer o ymddiriedolwyr elusennau

Cyllid grant y pen gan gyllidwyr grantiau mawr

Yn mesur lefelau cyfranogiad gweithredol mewn bywyd cymunedol a dinesig.

A oes elusennau'n gweithredu yn yr ardal, ac a yw'n ymddangos bod pobl yn cymryd rhan ym mywyd dinesig ehangach eu cymuned?

BCT

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

## Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI)

Indecs ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) yng Nghymru ar draws tri parth (asedau dinesig, cysylltedd a chymunedau gweithredol ac ymgysylltiol).

**Mae'r indecs hwn yn ystyried heriau isadeiledd cymunedol.**

## Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI)

Indecs sy'n rhoi safle i bob MSOA yng Nghymru, sy'n cynnwys yr WCAI ynghyd ag WIMD 2019.

**Mae'r indecs hwn yn ystyried heriau isadeiledd cymunedol A lefelau amddifadedd.**

## Ardaloedd Llai Cydnerth (LRAau)

Ardaloedd yn cael sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019. Ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102)

**102 MSOA.**

## Ardaloedd Difreintiedig Eraill

Ardaloedd sydd wedi'u rhestru yn yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegeion Amddifadedd Cymru 2019, nad oeddent wedi'u nodi fel Ardaloedd Llai Cydnerth.

**27 MSOA.**

# Ardaloedd Llai Cydnerth

Mae 102 o ardaloedd ym Mynegai Asedau Cymunedol Cymru yn cael eu categoreiddio fel Ardaloedd Llai Cydnerth. Mae Ardaloedd Llai Cydnerth yn ardaloedd sydd yn y 25% uchaf o’r Mynegai Asedau Cymunedol Cymru, safleoedd 1-102.


Mae’r Ardaloedd Llai Cydnerth yn cael eu categoreiddio fel ardaloedd sy’n wynebu’r anfantais ddeuol o:

lefelau uchel o amddifadedd; a heriau seilwaith cymunedol.

Yn ei hanfod: Mae Ardaloedd Llai Cydnerth yn ardaloedd sydd â llai o asedau cymunedol a dinesig sy’n profi unigedd cymharol, lefelau isel o gyfranogiad, ac amddifadedd sylweddol.

## Map Ardaloedd Llai Cydnerth

Mae'r map hwn yn dangos y 102 Ardal Llai Cydnerth mewn glas. Dyma'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n wynebu'r anfantais ddeuol a ddaw yn sgil heriau isadeiledd ac amddifadedd cymunedol.




Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Rydym yn diffinio cymunedau cydnerth fel:

Cymunedau sy'n meddu ar, neu sydd â mynediad at, amrywiaeth o asedau diriaethol ac anniriaethol sy'n cael eu defnyddio gan bobl yn y gymuned i wella llesiant unigol a chymunedol.

Gall pobl gyrchu'r asedau hyn i sicrhau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol mewn sefyllfaoedd andwyol – boed yn sydyn, yn annisgwyl neu'n hirdymor ac yn gronig eu natur.

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau


# Rhybuddion

**Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol –** mae amwysedd ynghylch defnyddio hyn fel mesur daearyddol, ond yn gyffredinol mae'n cael ei ystyried yn fesur priodol ar gyfer y dangosyddion sy'n cael eu defnyddio, a hynny oherwydd ei faint cymharol gyffredin a'r ffynonellau data sydd ar gael.

**Mesurau dwysedd –** mae'r ddau fynegai'n dibynnu ar fesurau dwysedd, ni waeth beth yw'r cyfraddau defnydd neu'r ystod o gyfleoedd sy'n deillio o fodolaeth yr ased dinesig.

**Dallineb cyd-destunol –** nid oedd y mynegeion wedi'u cynllunio i archwilio ffactorau cyd-destunol, fel grwpiau demograffig penodol yn cael mynediad at yr asedau, neu rwystrau ychwanegol y gallai rhai pobl eu hwynebu ee hygyrchedd neu fforddiadwyedd.


# Canfyddiadau



Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Trosolwg

- Cysylltiad rhyfeddol o gryf rhwng Mynegai Asedau Cymunedol Cymru (WCAI) a Mynegai Cydnerthu Cymunedol Cymru.
- Mae llawer o'r ardaloedd sydd â'r nifer leiaf o asedau yn profi nodweddion perifferoldeb, er eu bod yn gymharol agos at ganolfannau trefol.
- Mae'n rhyfeddol faint yn fwy o ardaloedd gwledig yng Nghymru oedd yn dioddef llai yn sgil rhai o effeithiau perifferoldeb, a hynny o gymharu ag ystadau tai anghysbell a chyn-ardaloedd glofaol.




BCT
Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Tai

- O gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae pobl mewn Ardaloedd Llai Cydnerth yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai rhent cymdeithasol, ond maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain o gymharu â'r bobl sy'n byw mewn Ardaloedd Difreintiedig Eraill.

- Mae cyfran uwch o bobl mewn Ardaloedd Llai Cydnerth yn byw mewn tai a adeiladwyd ar ôl y rhyfel, gyda dros 30% o anheddau yn yr ardaloedd hyn wedi eu hadeiladu rhwng 1945 ac 1972.

- By I'r gwrthwyneb, cyfran gymharol fach o'r tai a adeiladwyd yn ystod y mileniwm hwn sydd mewn Ardaloedd Llai Cydnerth. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau datblygwyr a chynllunwyr bod llai o bobl eisiau byw mewn Ardaloedd Llai Cydnerth, a bod cyfyngiad o ran lle mewn rhai ardaloedd.



BCT Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau


# Yr Economi a Chyflogaeth

- Mae llawer iawn llai o swyddi (yn enwedig swyddi medrus lleol) ar gael mewn Ardaloedd Llai Cydnerth o’i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae hyn bron yn sicr yn ganlyniad i'r ffaith eu bod nhw ar y cyrion yn ddaearyddol. Mae hefyd yn pwysleisio’r angen am drafnidiaeth dda i ardaloedd canolog, yn enwedig o ystyried y cyfraddau cymharol isel o ran y bobl sy’n berchen ar gar.

- Mae’r boblogaeth oedran gweithio yn llawer llai cymwys na chyfartaledd Cymru – gyda dros draean yr oedolion heb unrhyw gymwysterau, a thystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc â chymwysterau gwell yn allfudo.

- Ar gyfartaledd, mae incwm blynyddol cartrefi yn yr Ardaloedd Llai Cydnerth dros £3,800 yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (ar ôl ystyried costau tai).

- O gymharu â phobl o rannau eraill o Gymru, mae pobl sy’n byw mewn Ardaloedd Llai Cydnerth yn fwy tebygol o fod heb waith: nid yw llawer o bobl sydd allan o waith yn derbyn budd-daliadau, ac mae llawer o bobl allan o waith oherwydd bod ganddynt broblemau iechyd neu gyfrifoldebau gofalu.




BCT Building Communities Trust Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Iechyd


- Gall trigolion Ardaloedd Llai Cydnerth ddisgwyl byw bywydau byrrach, llai iach, na’r cyfartaledd ledled Cymru. Disgwyliad oes mewn Ardaloedd Llai Cydnerth yw 76 oed, gyda disgwyliad oes iach o 64 oed, o’i gymharu â 78 a 68 oed ar draws Cymru.

- Mae salwch tymor hir ar fwy nag un o bob pedwar o bobl mewn Ardaloedd Llai Cydnerth, sy’n uwch o’i gymharu ag Ardaloedd Difreintiedig Eraill (22%) a Chymru yn gyffredinol (22.7%). Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin iawn yn yr ardaloedd hyn.



Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Cymunedau a Gwasanaethau




- Mae gan yr Ardaloedd Llai Cydnerth lefelau cymharol uchel o asedau cymunedol o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, ond llai o wirfoddolwyr i'w rhedeg.

- Mae gan Ardaloedd Llai Cydnerth lawer llai o elusennau na rhannau eraill o Gymru, ac maent yn cael llawer llai o gyllid elusennol – er gwaethaf y ffaith fod cyllidwyr annibynnol wedi nodi “mannau oer” ers dros 15 mlynedd.

- O gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae cyfran llawer iawn mwy o blant yn byw mewn tlodi mewn Ardaloedd Llai Cydnerth.

# Casgliadau - sut gwnaethon ni gyrraedd yma?

Mae llawer o'r heriau sy'n wynebu'r Ardal Llai Cydnerth yn ymwneud â pherifferoldeb economaidd.



Fodd bynnag, maent wedi cael eu gwaethygu gan:

- Canoli gwasanaethau oherwydd cyni
- Cysylltiadau trafnidiaeth gwael
- Gwaith cynllunio a dylunio trefol gwael.


Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Casgliadau - beth nesaf?

- Mae llawer o'r bylchau mewn seilwaith cymdeithasol yn yr Ardaloedd Llai Cydnerth yn cael eu llenwi gan fudiadau cymunedol – er gwaethaf y diffyg cyllid sydd ar gael.

- Mae angen i lunwyr polisïau sy'n ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol allweddol – yn enwedig tlodi plant ac iechyd meddwl – gydnabod yr unigedd cymharol a'r lefelau isel o asedau sy'n wynebu llawer o bobl maent yn ceisio eu cefnogi.

- Bydd rhagor o gyni yn gwneud pethau'n waeth...



BCT Building Communities Trust Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# I leihau'r gwahaniaethau hyn sy'n seiliedig ar le, rydym yn argymell:

01 Y dylai Llywodraeth Cymru ddosbarthu adnoddau'n seiliedig ar gydnerthedd yn ogystal ag amddifadedd, gan gydnabod yr heriau ychwanegol mae pobl agored i niwed sy'n byw ar gyrion trefi a dinasoedd Cymru'n eu hwynebu.

02 Bod angen i gynllunwyr trafnidiaeth roi blaenoriaeth i LRA yn achos gwasanaethau cludiant cyhoeddus, gan gynnwys cyllido cludiant cymunedol lle bo angen.

03 Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau gorfodol i sicrhau bod pob datblygiad tai yn y dyfodol yn cael eu "diogelu at y dyfodol" gyda mynediad da at drafnidiaeth a darpariaeth sylfaenol o ran asedau cymunedol, fel canolfannau cymunedol.

04 Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, drwy ganllawiau cryfach neu ddeddfwriaeth, bod gan gymunedau broses symlach i gael meddiant o gyfleusterau cymunedol allweddol.

05 I adeiladu cydnerthedd cymunedol ledled Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru greu 'Cronfa Cyfoeth Cymunedol' gan ddefnyddio'r don newydd o arian a gaiff ei ryddhau o dan Ddeddf Asedau Segur 2022.

06 Bod yn rhaid i gyllidwyr gydnabod anghenion Ardaloedd Llai Cydnerth a sicrhau eu bod yn cael eu cyfran deg o adnoddau.

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Ble gallwch chi ddod o hyd i'n hymchwil?







**www.bct.wales/wcai**

Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Cwestiynau?



# Croeso i...

## Gwenlli Evans

CWMNI BRO FFESTINIOG

# Croeso i...

## Sarah Griffiths

TOGETHER

FOR TROWBRIDGE & ST MELLONS

# Cwestiynau?



# Diolch am ymuno â ni heddiw

# Thank you for joining us today

BCT
Building
Communities Trust
Ymddiriedolaeth
Adeiladu Cymunedau